Gwanwyn Ddaw

Golau gwan yw golau'r gaeaf
Golau oer ar hyd Lôn Wen,
Sachau tynn o dan y llechi,
Brigau moel a llwm ar bren;
Ond mae tân yng nghors y bryniau
Ac mae gobaith yn y fflamau.

Melyn cryf y Cennin Pedr,
Blodyn Mawrth, fel agor llaw
Sydd yn dathlu gŵyl y gwanwyn,
Rhoi ffarwel i'r gwynt a'r glaw;
Ac mae cerrig, fel hen eiriau,
Wedi'u hel a'u codi'n waliau.

Ysgol yr Eifl, Trefor gyda chymorth Myrddin ap Dafydd
Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, 27/02/08